# Atodiad 5

**Yn y Llys Teulu** **Rhif yr Achos: *[Rhif yr achos]***
**yn eistedd yn *[enw'r Llys]***

---

**Gorchymyn Datgelu i'w ddefnyddio mewn achosion Cyfraith Teulu sy'n ymwneud ag ymgyfreithwyr drostynt eu hunain/dim asiantaeth statudol**

**Deddf Plant 1989**

| Enw(au) llawn y plentyn/plant | Bachgen ynteu Merch | Dyddiad(au) Geni |
|---|---|---|
| [*nodwch*] | [*nodwch*] | [*nodwch*] |
| [*nodwch*] | [*nodwch*] | [*nodwch*] |

---

Gerbron [*rhowch enw'r barnwr*] yn breifat ar [*rhowch y dyddiad*] mewn [*rhowch y math o wrandawiad*].

**Y partïon:**

Mae'r ymgeisydd [*rhowch enw*] yn cael ei gynrychioli gan [*rhowch enw*] [*rhowch enw'r* cwnsler]

Yr atebydd 1af yw [*rhowch enw*], y [*rhowch y berthynas â'r plentyn*], a gynrychiolir gan [*rhowch enw*] [*rhowch enw'r* cwnsler]

Yr 2il atebydd yw [*rhowch enw*], y [*rhowch y berthynas â'r plentyn*], a gynrychiolir gan [*rhowch enw*] [*rhowch enw'r* cwnsler]

Y 3ydd [[ac] / [i] [*rhowch* (RHIF FEL BOD POB PLENTYN YN CAEL EI ADNABOD FEL YMATEBYDD AR WAHÂN)] ymatebydd/ymatebwyr [yw'r] plentyn/plant (gan warcheidwad eu plant [*enw*]) a gynrychiolir gan [*enw'r*] [cwnsler]

Mae'r ymyrrwr [*rhowch enw*] [yn bersonol] [yn cael ei gynrychioli gan [*rhowch enw*] [*rhowch enw'r* cwnsler]]

Dyma gyfeiriadau e-bost a manylion y partïon ar gyfer datgelu yn unol â'r Gorchymyn hwn:

**Hysbysiadau Pwysig**

**Rhybudd cyfrinachedd**
Nes daw'r achos i ben ni chaiff neb gyhoeddi i'r cyhoedd yn gyffredinol nac unrhyw ran o'r cyhoedd heb ganiatâd y llys unrhyw ddeunydd a fwriedir neu sy'n debygol o nodi bod y plentyn/plant yn gysylltiedig â'r achos hwn neu gyfeiriad neu ysgol y plentyn/plant. Mae unrhyw un sy'n gwneud hynny yn euog o dramgwydd.

Ar ben hynny, yn ystod yr achos neu ar ôl iddo ddod i ben ni chaiff neb gyhoeddi gwybodaeth sy'n ymwneud â'r achos gan gynnwys cyfrifon o'r hyn sydd wedi digwydd gerbron y barnwr, dogfennau a ffeiliwyd yn yr achos, trawsgrifiadau neu nodiadau o dystiolaeth a chyflwyniadau, a thrawsgrifiadau a nodiadau o ddyfarniadau (gan gynnwys detholiadau, dyfyniadau, neu grynodebau o ddogfennau o'r fath). Gall unrhyw un sy'n gwneud hynny fod yn euog o ddirmyg llys.

Rhaid peidio â chyfleu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r achos i unrhyw un ar wahân i'r hyn a ganiateir gan Reolau 12.73 neu 12.75 neu Gyfarwyddyd Ymarfer 12G Rheolau Trefniadaeth Teulu 2010.

**CRONICLADAU**

1. Mae hwn yn orchymyn i'r llys Teulu ddarparu datgeliad i'r llys teulu gan yr heddlu [*rhowch enw'r heddlu*].

2. Y rheswm dros wneud y cais hwn yw er mwyn galluogi'r llys i benderfynu ar geisiadau sy'n ymwneud â'r plant.

3. Mae'r cais am ddatgeliad wedi ei wneud ar Ffurflen C2 dyddiedig / wedi cael ei orchymyn gan y Llys mewn gwrandawiad ar .
   Mae'r Llys yn cyfarwyddo y dylid datgelu'r cais C2/Cais Atodiad 1/gorchymyn a wnaed gan y Llys ar ynghyd â'r Gorchymyn hwn.

4. Cafodd y gorchymyn hwn ei wneud mewn gwrandawiad [heb rybudd] / [ar fyr rybudd anffurfiol] i [*rhowch enw'r heddlu*]. Mae ganddynt hawl i wneud cais i amrywio neu ddiddymu'r gorchymyn hwn fel y nodir isod.

5. Mae natur yr achosion sy'n ymwneud â'r plant fel a ganlyn:

(rhowch grynodeb byr o geisiadau, materion diogelu a godwyd gan CAFCASS a safbwyntiau'r partïon)

6. Mae'r materion sydd i'w penderfynu gan y Llys Teulu yn yr achos hwn fel a ganlyn:

(nodwch yn fyr pa faterion y mae angen penderfynu arnynt yn yr achos a pham)

7. Mae'r Llys Teulu yn ystyried/wedi penderfynu bod angen cynnal gwrandawiad Canfod Ffeithiau i benderfynu ar y materion a ganlyn rhwng y partïon sy'n berthnasol i'r materion yn yr achos:

(nodwch yn fyr y materion mae'r Llys yn eu hystyried/y mae angen iddo benderfynu arnynt yn y Gwrandawiad Canfod Ffeithiau)

8. Mae amgylchiadau presennol y plant fel a ganlyn:

(crynodeb byr o amgylchiadau plant/gyda phwy maen nhw'n byw/pa ymyriad allai fod wedi digwydd/p'un a ydyn nhw'n cael cyswllt/ac ati)

9. Mae'r Llys wedi adolygu ffeil y Llys Teulu ac yn ystyried y dylid datgelu'r wybodaeth a ganlyn er mwyn datrys y materion yn yr achosion teulu hyn:

Manylion:
1) Y mathau o wybodaeth sydd eu hangen gan yr heddlu - er enghraifft: Cofnodion PNC; Adroddiad cryno neu adroddiadau ymchwilio. Os oes angen adroddiadau ymchwilio ar y partïon, rhaid i'r gorchymyn fod yn benodol o ran natur a dyddiad yr honiad. Os bydd angen tystiolaeth ddigidol/sain ar y llys, bydd angen i'r partïon lofnodi'r ymrwymiad sydd ynghlwm wrth Atodiad 1 cyn y gellir datgelu.
2) Natur yr honiadau sy'n allweddol i'r achos hwn - er enghraifft: Trais Domestig, cwynion a wnaed rhwng partïon/eraill ynghylch materion/gwybodaeth sy'n ymwneud â chysylltiad plant â'r heddlu, cymorth a roddwyd gan yr heddlu i bartïon mewn perthynas â materion perthnasol;
3) Amserlen ar gyfer chwilio am wybodaeth - er enghraifft: 01 Ionawr 2022 hyd yma.

**<u>GORCHMYNNIR [DRWY GYDSYNIAD] FOD:</u>**

<u>Achosion lle mae ymgyfreithwyr drostynt eu hunain/datgeliadau wedi eu gorchymyn gan y Llys</u>

10. Erbyn 4.00pm ar [*dyddiad*], bydd [*rhowch* Comisiynydd yr Heddlu Metropolitanaidd] / [Prif Gwnstabl [*heddlu*]] yn datgelu i'r llys ac i'r partïon yr wybodaeth berthnasol ynghylch y canlynol:

Y materion i'w penderfynu gan y Llys Teulu
Y materion i'w pennu yn y gwrandawiad Canfod Ffeithiau

Yn benodol:
Fel y nodir yn unol â pharagraffau 5-9 uchod

Dylid rhestru manylion y partïon isod, gan gynnwys enwau, dyddiad geni ac unrhyw gyfeiriadau hysbys gan gynnwys cyfeiriadau e-bost. Heb yr wybodaeth hon, ni fydd yr heddlu mewn sefyllfa i chwilio am wybodaeth a chydymffurfio â'r gorchymyn.

<u>Achosion sy'n cynnwys cynrychiolwyr cyfreithiol</u>

Rhaid i gyfreithiwr y Ceisydd, o fewn 3 diwrnod busnes, gyflwyno cais Atodiad 1 i'r heddlu am yr wybodaeth a ganlyn:

Fel y nodir yn unol â pharagraffau 5-9 uchod

11. Ni fydd unrhyw ddeunydd sy'n cael ei ddatgelu gan [*nodwch* Gomisiynydd yr Heddlu Metropolitanaidd] / [Prif Gwnstabl [*heddlu*]] yn unol â'r gorchymyn hwn yn datgelu'r manylion personol sydd wedi eu cynnwys mewn unrhyw Atodiad i'r gorchymyn hwn.

12. [Mae'r llys] / [*rhowch Enw'r parti*] yn gyfrifol am gyflwyno copi o'r gorchymyn hwn (gan gynnwys unrhyw Atodiad) ar [*rhowch enw'r swyddog neu'r uned ddatgelu berthnasol*] ynghyd â llythyr sy'n rhoi manylion am gyflwyno'r holl bartïon.

13. [Ni fydd y llys yn cyflwyno'r Atodiad i'r partïon yn yr achos.]

14. Dim ond at ddibenion yr achos hwn y gellir defnyddio'r wybodaeth a ddatgelir ac ni ddylid ei datgelu i unrhyw drydydd parti heb ganiatâd y llys.

15. Rhaid i'r parti sy'n gofyn am y Gorchymyn hwn ymrwymo i dalu holl dreuliau rhesymol yr heddlu wrth gydymffurfio â'r gorchymyn hwn a rhaid iddo ymrwymo i wneud hynny pan gyflwynir y Gorchymyn hwn

16. Tybir bod y parti [rhowch enw a chyfeiriad e-bost] sy'n gofyn am y Gorchymyn hwn wedi cytuno i dalu holl dreuliau rhesymol yr heddlu, a bydd yr heddlu'n gofyn am daliad naill ai cyn neu ar ôl datgelu fel y gwelant yn dda, yn amodol ar unrhyw drefniant lleol neu benodol ar wahân a nodir isod:
nodi manylion ynghylch trefniadau talu os ydynt yn wahanol i'r uchod

17. Dyma'r amserlen ar gyfer yr achos Llys Teulu:

Dyddiad a phwrpas y gwrandawiad nesaf, amserlen ar gyfer ffeilio tystiolaeth ac ati

18. Caniatâd i'r Heddlu/Swyddog yn yr Achos fel bo'n briodol i ofyn am gael bod yn bresennol yn y gwrandawiad a nodir uchod er mwyn cyflwyno sylwadau/rhoi gwybod i'r Llys Teulu am faterion perthnasol sy'n ymwneud â'r achos teulu/caniatâd i'r heddlu fod yn bresennol o bell mewn unrhyw wrandawiad pellach os gofynnir am hynny.

**Cyfarwyddiadau o ran golygu**

19. Rhaid i *[enw'r heddlu]* beidio golygu unrhyw wybodaeth heb gais i'r llys ar wahân i:
    a. Fanylion plant nad ydynt yn gysylltiedig â'r achos hwn;
    b. Manylion unrhyw un a wrthododd roi datganiadau tystion; a
    c. Mae unrhyw ddeunydd sy'n cael ei ystyried gan [*rhowch enw'r heddlu*] yn "ddeunydd PNC sensitif" ac eithrio pe byddai angen datgelu gwybodaeth o'r fath mewn unrhyw achos troseddol, pan na ddylid ei olygu.

Cyfeirir y partïon at Atodiad 2 adran 6 mewn perthynas â'r canllawiau a ddilynir ar gyfer golygiadau; os bydd mater nad yw'r uchod yn ymdrin ag ef, gall y Barnwr gysylltu â chynrychiolydd yr heddlu drwy e-bost i gael eglurhad pellach.

**Yr hawl i geisio amrywio neu ddiddymu'r gorchymyn hwn**

20. Gall [*nodwch* Comisiynydd yr Heddlu Metropolitanaidd] / [Prif Gwnstabl [*heddlu*]] wneud cais i amrywio neu ddiddymu'r gorchymyn hwn gyda 2 ddiwrnod gwaith o rybudd i'r partïon, gyda chais o'r fath heb fod yn hwyrach na 4.00pm ar [*rhowch ddyddiad dim hwyrach na 14 diwrnod busnes o ddyddiad y gorchymyn*].

21. Caniatâd i'r heddlu ofyn yn ysgrifenedig drwy e-bost am ymateb brys gan Farnwr y Llys Teulu os bydd y cais hwn yn amharu a/neu'n effeithio ar unrhyw ymchwiliad/achos troseddol gydag esboniad ynghylch sail y cais. Ni fydd hyn yn cael ei ddatgelu i'r partïon, rhaid i'r Barnwr roi gwybod i'r partïon am unrhyw benderfyniad a wnaed mewn perthynas â chais o'r fath.

Dyddiedig [*rhowch y dyddiad*]

**Rhif yr Achos: [*nodwch*]**

**ATODIAD**

**I’R GORCHYMYN DATGELU GAN YR HEDDLU A WNAED AR [*nodwch y DYDDIAD*] GAN [*nodwch ENW’R BARNWR*]**

**Mae’r atodiad hwn yn cynnwys manylion personol y mae’r parti wedi rhoi rhybudd o ddymuniad i’w chadw’n gyfrinachol.**

Ymgeisydd [*enw’r ymgeisydd*]: [*nodwch y manylion cyfrinachol*]

Atebydd [*enw’r atebydd*]: [*nodwch y manylion cyfrinachol*]